Senedd Cymru
**Adnoddau Dynol**

# Cynghorydd Cyfreithiol
## Pecyn Gwybodaeth

SC-026-23



# Croeso gan Bennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol



Matthew Richards

Rwy'n falch iawn bod gennych ddiddordeb mewn gwneud cais i weithio fel cynghorydd cyfreithiol yn Senedd Cymru (y Senedd). Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â thîm deinamig ac amrywiol o gyfreithwyr cyfansoddiadol sydd wrth wraidd democratiaeth Cymru. Rydym yn darparu cymorth cyfreithiol i'r Aelodau yn eu rôl bwysig, sef llunio deddfwriaeth a chraffu arni a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Rydym yn cynghori ar bopeth o henebion i sŵoleg, yn ogystal â llawer o bethau yn y canol, fel yr amgylchedd, gofal cymdeithasol ac addysg. Maint cymharol fach y tîm yw ein cryfder: mae pob diwrnod yn wahanol ac mae pob darn o waith yn unigryw. Byddwch yn gweithio gydag Aelodau etholedig y Senedd, gan gynnwys y Llywydd, a chyda chydweithwyr yng Nghymru ac ar draws y DU.

Mae cyfleoedd digynsail o ran y Senedd ar hyn o bryd gyda newid cyfansoddiadol yng Nghymru, y DU ac Ewrop. Dyma adeg unigryw a chyffrous i ymuno â ni ac edrychaf ymlaen at gael eich cais.

**Cyfeirnod y swydd:** SC-026-23

**Teitl y swydd:** Cynghorydd Cyfreithiol

**Cyflog:** £56,566 - £67,823 (Band Gweithredol 2 - Gradd 7)

Er gwybodaeth, ar waelod yr ystod cyflog y bydd y cyflog cychwynnol fel arfer.

**Cyfnod** :Parhaol

**Gwasanaeth:** Gwasanaethau Cyfreithiol

**Lleoliad:** Gweithio ystwyth / y Senedd, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Bydd y rôl hon yn un ystwyth, gyda chyfuniad o weithio yn y swyddfa a gweithio gartref. Cewch y cymorth a'r cyfarpar angenrheidiol i ganiatáu i chi weithio gartref. Bydd yn ofynnol ichi fynd i'r swyddfa yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd yn ôl anghenion busnes.

---

**Patrwm gwaith:** Swydd amser llawn yw hon. Fodd bynnag, ystyrir trefniadau gweithio hyblyg, yn amodol ar sicrhau y caiff anghenion y Senedd a'i Haelodau eu diwallu.

**Cliriad diogelwch:** Yn dilyn asesiad, penderfynwyd bod angen fetio diogelwch ar lefel 'CTC' ar gyfer y swydd hon. O ran yr ymgeiswyr nad oes ganddynt gliriad ar y lefel hon ar hyn o bryd, byddent yn cael eu penodi yn amodol ar gwblhau'r fetio diogelwch yn llwyddiannus ar y lefel hon.

---

# Diben y swydd:

Rydym yn chwilio am Gynghorydd Cyfreithiol i ymuno â'n tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn y Senedd. Mae hwn yn gyfle cyffrous i chwarae rhan annatod yng ngwaith y Senedd gan ei fod yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Corff corfforaethol yw Comisiwn y Senedd (y Comisiwn), ac mae'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gefnogi Aelodau o'r Senedd i ymgymryd â'u gwaith.

Pan fydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi'i ychwanegu at y tîm, bydd Gwasanaeth Cyfreithiol y Comisiwn yn cynnwys un ar bymtheg o gynghorwyr cyfreithiol. Mae'r Gwasanaeth yn darparu cyngor cyfreithiol i'r Llywydd, y Prif Weithredwr, pwyllgorau'r Senedd, Aelodau unigol o'r Senedd a chydweithwyr eraill y Comisiwn ynghylch amrywiaeth eang o faterion cyfreithiol. Yn nodedig, mae'r tîm yn cynghori Aelodau o'r Senedd ar eu gwaith craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd feithrin perthynas waith gydag adrannau eraill y Comisiwn, yn ogystal ag amrywiaeth o gyrff eraill, fel Llywodraeth Cymru a'r deddfwrfeydd datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd eich gwybodaeth am gyfraith gyhoeddus, eich profiad, a'ch sgiliau rhyngbersonol â rôl hanfodol wrth ddarparu cyngor cyfreithiol a chraffu cyfreithiol ar ddeddfwriaeth wrth galon democratiaeth Cymru.

## Ynglŷn â'r rôl:



**Sam Mason, Cynghorydd Cyfreithiol**

Ymunais â'r Senedd fel hyfforddai yn 2016 ac roeddwn yn ddigon ffodus i gael cynnig swydd barhaol ar ôl cymhwyso. Roedd gennyf gymorth cydweithwyr yn y Gwasanaeth Cyfreithiol drwy gydol fy nghontract hyfforddi ac rwy'n parhau i elwa ar y cymorth hwn, yn ogystal â chyfleoedd eraill ar gyfer datblygiad parhaus fel cynghorydd cyfreithiol cymwysedig.

Rwy'n darparu cyngor ar amrywiaeth o faterion diddorol i gydweithwyr yn y Comisiwn, ac i'r Aelodau a'u staff cymorth. Mae'r cyngor y gofynnir amdano yn amrywio o ddydd i ddydd, o gynghori un o bwyllgorau'r Senedd ar graffu ar Fil un diwrnod, i gynghori cydweithiwr yn y Comisiwn ynghylch cyfrifoldebau diogelu data ar ddiwrnod arall. Nid oes dau ddiwrnod byth yr un fath!



**Masudah Ali, Cynghorydd Cyfreithiol**

Ymunais â'r Senedd fel Cyfreithiwr dan Hyfforddiant yn 2020 yn ystod y pandemig Covid-19, a chynigwyd rôl Cynghorydd Cyfreithiol parhaol imi ar ôl cymhwyso. Drwy gydol fy nghyfnod hyfforddi, cefais gefnogaeth amhrisiadwy gan gydweithwyr, ac rwy'n parhau i elwa ar eu harweiniad, a'r cyfleoedd parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Rwyf wedi cynghori'r Aelodau ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, wedi cefnogi'r Pwyllgor Deisebau ar amrywiaeth o faterion ac wedi cynghori ar ddeddfwriaeth y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig. Rwyf wedi rhoi cyngor i gydweithwyr yng Nghomisiwn y Senedd, ynghŷd ag Aelodau o'r Senedd a'u staff cymorth ar amrywiaeth eang o gwestiynau cyfraith gyhoeddus.

Mae pob diwrnod yn y Senedd yn cynnig heriau newydd i mi. Rwyf wedi dysgu cymaint a does dim dau ddiwrnod yr un peth.



**Jennifer Cottle, Cynghorydd Cyfreithiol**

Gadewais bractis preifat i ymuno â thîm cyfreithiol y Senedd yn 2017 ac nid wyf wedi difaru o gwbl. Mae'r swydd hon yn rhoi cyfle i mi wneud gwaith diddorol o ansawdd da wrth elwa ar hyblygrwydd sy'n rhoi cydbwysedd gwych i mi rhwng bywyd a gwaith. Fel mam i dri o fechgyn, rwyf bob amser wedi teimlo fy mod yn cael cymorth yn y gwaith gan y Comisiwn fel cyflogwr a chan y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol cyfan.

Er bod y gwaith rwy'n ei wneud nawr yn wahanol iawn i'r gwaith roeddwn yn ei wneud o'r blaen, mae cydweithwyr proffesiynol a thalentog bob amser wrth law i roi cyngor a chymorth cyfeillgar. Rydym i gyd yn dysgu drwy'r amser ac rwyf wir yn mwynhau teimlo fy mod yn cael fy herio ac yn gallu datblygu fy ngwybodaeth bob dydd.

# Cyfrifoldebau craidd:

Gan adrodd i Uwch Gynghorydd Cyfreithiol, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu gwasanaethau cyfreithiol fel y cyfarwyddir gan Bennaeth y Gwasanaeth.

Mae enghreifftiau o rywfaint o'r gwaith a wneir wedi'u nodi isod:

Cyngor Cyfreithiol:

- Cynghori'r Comisiwn, y Llywydd, staff y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd ar amrywiaeth o faterion sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Senedd
- Cynghori'r pwyllgorau i'w helpu i graffu ar bolisïau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru
- Cynghori ynghylch dehongli a chymhwyso Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a darnau eraill o ddeddfwriaeth gyfansoddiadol.

Gwaith craffu cyfreithiol ar ddeddfwriaeth:

- Cynghori ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd
- Cynghori ar sut y mae'r cymhwysedd hwn yn effeithio ar Filiau gerbron Senedd y DU
- Cynghori pwyllgorau ynghylch effaith gyfreithiol Biliau'r Senedd.
- Cynghori ynghylch craffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru
- Cynghori ar ddeddfwriaeth a wneir o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

Gwasanaethau drafftio deddfwriaethol

- Drafftio gwelliannau i Filiau
- Gweithio'n rhagweithiol gyda Chwnsler arbenigol i ddrafftio Biliau Aelod, Biliau pwyllgor a Biliau a hyrwyddir gan Gomisiwn y Senedd.

# Sgiliau a chymwyseddau penodol i'r swydd:

Mae'r adran hon yn nodi'r sgiliau a'r profiad yr ystyrir eu bod yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, a hefyd y rhai yr ystyrir eu bod yn ddymunol.

Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hyn yn eich ffurflen gais.

**Dylai eich atebion fod yn "seiliedig ar dystiolaeth" ac rydym yn argymell yn gryf eich bod yn defnyddio strwythur STAR ar gyfer Meini Prawf Swydd 2, 3 a 4.**

**I gael rhagor o fanylion, gweler yr atodiad Canllaw Cyflym ar Ymgeisio am Swydd.**

## Meini prawf penodol i'r swydd:

1. Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn gyfreithwyr, yn fargyfreithwyr neu'n weithredwyr cyfreithiol sy'n gymwys i weithio yng Nghymru. Byddwn yn ystyried ceisiadau gan hyfforddeion sy'n nesàu at gymhwyso.

2. Dealltwriaeth o gyfraith gyfansoddiadol a gweinyddol

3. Gallu amlwg i ddefnyddio barn gadarn a gallu dadansoddol cyfreithiol i ddatrys problemau cyfreithiol cymhleth.

4. Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn hyderus.

*Bydd gan y cwestiwn a ganlyn ei flwch testun <u>ei hun</u> yn y ffurflen gais, yn annibynnol ar yr uchod.*

5. Rhaid i'r ymgeiswyr gael dealltwriaeth gadarn o egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Felly, esboniwch beth yw ystyr:

    i. pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru i wneud deddfwriaeth; a

    ii. chymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

## Meini prawf o ran y Gymraeg:

Mae'r sgiliau ieithyddol ar gyfer y swydd hon wedi'u hasesu fel Lefel Cymraeg Cwrteisi.

Dylai ymgeiswyr fod yn gallu:

- Ynganu enwau Cymraeg, ateb y ffôn, cyfarch pobl neu gyflwyno pobl i'w gilydd yn ddwyieithog
- Deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd, bob dydd, yn rhagweithiol.
- Deall testunau byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain neu eraill mewn gohebiaeth, ar ffurflenni neu ddehongli cynnwys drwy ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael iddynt.

I gael rhagor o wybodaeth am y lefelau gallu o ran y Gymraeg, ewch i'n gwefan.

---

## Meysydd cymhwysedd ac ymddygiadau'r lefel:

Dyma'r cymwyseddau penodol y bydd disgwyl ichi eu dangos yn y swydd hon.

Bydd y meysydd cymhwysedd a'r ymddygiadau yn cael eu hasesu yn ystod y cam cyfweld ac **nid oes** angen rhoi sylw iddynt yn eich ffurflen gais.

### Arweinyddiaeth

- Ysgwyddo cyfrifoldeb am y tasgau a ddyrennir, a'u cwblhau ar eich pen eich hunan, gan ddefnyddio barn wrth benderfynu pryd i ofyn am gyngor gan gydweithwyr ar lefel uwch

### Gweithio gydag eraill a'u gwerthfawrogi

- Cynllunio a rheoli amser yn effeithiol a bod yn barod i helpu cydweithwyr lle bo angen

### Sicrhau canlyniadau i'n cwsmeriaid

- Dangos ethos gwasanaeth cwsmeriaid

### Dysgu a gwella

- Gweld y darlun ehangach a chreu cysylltiadau rhwng materion gwahanol gyda golwg ar flaenoriaethau busnes a blaenoriaethau gwleidyddol

## Cyfleoedd datblygu y mae'r swydd yn eu cynnig:

Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle cyffrous i weithio yn amgylchedd unigryw corff seneddol Cymru. Bydd y sgiliau a gaiff yr ymgeisydd llwyddiannus yn y swydd, a llawer o'r wybodaeth gyfreithiol, yn drosglwyddadwy i sectorau cyfreithiol eraill.

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch neges e-bost at: stephen.davies@senedd.cymru

Bydd Stephen yn hapus i ateb eich cwestiynau drwy e-bost neu i drefnu amser i siarad â chi os hoffech gael sgwrs.


*Gan fod y swydd a hysbysebir yn cynnwys cyfrifoldebau rheoli, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau Rhaglen Rheolwyr Comisiwn y Senedd. Bydd y rhaglen hon yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol i'r ymgeisydd llwyddiannus er mwyn bod yn rheolwr llinell o'r radd flaenaf yn y Senedd.*



# Gweithio yn y Senedd

Mae'r Senedd yn lle cyffrous i weithio ynddo. Mae gennym bolisïau blaengar ac ymrwymiad i hyfforddi a datblygu staff.

Pan fyddwch chi'n gweithio yma, mae gennych yr hawl i'r canlynol:



- 31 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn
- 11 diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint y flwyddyn





- Codiadau cyflog cynyddol
- Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil



- Gwasanaethau iechyd galwedigaethol
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- Rhwydweithiau cydraddoldeb i gefnogi staff yn y gweithle



- Polisïau cyfeillgar i deuluoedd, yn cynnwys seibiant gyrfa, gweithio rhan-amser, rhannu swydd, gweithio yn ystod tymor yr ysgol yn unig, absenoldeb arbennig
- Absenoldeb mamolaeth, maeth a mabwysiadu hael, a rhannu absenoldeb rhieni

# Ein gwerthoedd:

Mae ein gwerthoedd yn rhan o bopeth a wnawn. Gyda'n gilydd, rydym wedi creu cyfres o werthoedd sy'n dathlu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd, ac sy'n ein hatgoffa o bwy yr ydym a'r hyn sy'n bwysig inni.

**PARCH**

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol

**ANGERDD**

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru

**BALCHDER**

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm

## UN TÎM YDYM NI

Edrychwn ymlaen at weld sut y mae eich gwerthoedd yn cyd-fynd â'n gwerthoedd ni, er mwyn i chi allu ein helpu i feithrin diwylliant cadarnhaol a chynhwysol.

# Ein hieithoedd swyddogol (Cymraeg a Saesneg):

Rydym yn gwbl ymrwymedig i wella ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol yn barhaus ac i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle gall Aelodau'r Senedd, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy iaith, a lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso'n rhagweithiol.

Er nad ydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'n staff fod yn rhugl yn ein dwy iaith swyddogol, rydym yn disgwyl iddynt oll ymrwymo i ddarparu gwasanaethau yn ein hieithoedd swyddogol. I'r graddau hynny, rydym yn disgwyl i bob aelod o staff sy'n cael ei benodi gan y Senedd fod â sgiliau lefel cwrteisi yn y Gymraeg, neu i gaffael y sgiliau hyn yn ystod cyfnod y cytunir arno. Caiff pob swydd ei hasesu yng nghyd-destun gallu'r maes gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'n cwsmeriaid ac mae rhai swyddi, felly, yn gofyn am lefel uwch o Gymraeg i hwyluso hynny, a nodir gofynion o'r fath uchod.

# Amrywiaeth a chynhwysiant:

Rydym yn awyddus i feithrin diwylliant cynhwysol yn ein sefydliad, gan ddenu'r ystod ehangaf o dalent a'i chadw ac, yn sgil hynny, sicrhau bod ein holl gyflogeion yn cyrraedd eu potensial llawn, ni waeth beth yw eu cefndir. Rydym am i'n gweithlu fod yn fwy cynrychioliadol o bob rhan o gymdeithas ar bob lefel yn y sefydliad.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan ystod amrywiol o bobl, o bob cefndir a chyda llawer o sgiliau, profiadau a safbwyntiau gwahanol. Rydym yn arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan bobl anabl a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, oherwydd nad oes cynrychiolaeth ddigonol o'r grwpiau hyn yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd tuag at amrywiaeth a chynhwysiant ar gael **ar ein gwefan**. Caiff pob penodiad ei wneud yn ôl teilyngdod

---

# Ymgeisiwch nawr!

**Manylion am y broses ddethol**: Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais drwy ein porth recriwtio gan roi sylw i'r meini prawf sy'n benodol ac yn ddymunol i'r swydd.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 11 Chwefror 2024
Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich cais cyn hanner nos ar y dyddiad cau.

Byddwch yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eich cais ar y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd gennych i gofrestru. Cofiwch edrych yn eich ffolderi e-bost Sothach a Sbam i sicrhau na fyddwch chi'n methu unrhyw ohebiaeth ddilynol.

Bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd. Mae'r rhain wedi'u pennu am y tro ar gyfer wythnos gyntaf mis Mawrth 2024. Rhoddir o leiaf bum diwrnod gwaith o rybudd i ymgeiswyr llwyddiannus cyn dyddiad y cyfweliad.